



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## **POLISI DIOGELWCH BYSIAU MINI**

<b>Dyddiad</b>	<b>Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid</b>	<b>Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei Gwblhau</b>
13 Tachwedd 2013	Cyhoeddiad cyntaf	
4 Tachwedd 2018	Adolygiad	
16 Chwefror 2023	Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau	14 Hydref 2019 (wedi'i adolygu ar 16 Chwefror 2023)

<b>Swyddog Polisi</b>	<b>Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol</b>	<b>Cymeradwywyd gan</b>	<b>Dyddiad</b>
Pennaeth Iechyd a Diogelwch	Prif Swyddog Gweithredu	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch	13 Tachwedd 2013

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2026.

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae bysiau mini'n ddull hanfodol o gludiant i golegau a gwasanaethau proffesiynol sydd eisiau gwneud gweithgareddau sy'n golygu cludo grwpiau o staff a/neu fyfyrwyr.

Mae hefyd yn drosedd o dan ddeddfau traffig ffyrdd i achosi neu ganiatáu i fws mini gael ei yrru ar y ffordd pan gall ei gyflwr, neu'r ffordd y caiff ei ddefnyddio neu ei yrru, achosi perygl i unrhyw un yn y bws mini neu ddefnyddwyr eraill ar y ffyrdd. Felly, mae'n rhaid i'r brifysgol weithredu systemau i gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol, Rheolau'r Ffordd Fawr, a chymryd pob cam rhesymol arall i ddiogelu'r gyrrwr, y teithwyr a defnyddwyr eraill ar y ffyrdd rhag damwain ffordd.

## 2. DATGANIAD POLISI A'I GWMPAS

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ac yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arfer da, yw sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y myfyrwyr ac ymwelwyr i'r brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion sydd ar golegau a gwasanaethau proffesiynol i sicrhau bod bysiau mini sydd wedi eu prydlesu neu eu llogi, a gaiff eu gyrru gan staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr ar waith yn ymwneud â'r brifysgol, yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n ddiogel.

### Mae'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:

- Bysiau mini sy'n cael eu llogi/prydlesu gan y brifysgol i'w defnyddio yn y Deyrnas Unedig.
- Pob coleg a gwasanaeth proffesiynol sy'n llogi/prydlesu bysiau mini.
- Rhai sy'n gyrru bysiau mini a ddefnyddir ar waith y brifysgol neu sy'n deithwyr ynddynt.

### Nid yw'r polisi'n berthnasol i'r canlynol

- Bysiau mini a yrrir dramor (yn cynnwys Iwerddon).
- Cerbydau amblwrpas (MPV) sydd â llai nag 8 sedd i deithwyr.
- Defnyddio bysiau mini Undeb y Myfyrwyr ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr.

## 3. POLISI'AU CYSYLLTIEDIG A'R DDEDDFWRIAETH

Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol hynny dan y gyfraith, mae gan y brifysgol, a'r colegau a'r gwasanaethau sy'n perthyn iddi, gyfrifoldebau a rhwymedigaethau penodol dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd a'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith i sicrhau diogelwch bysiau mini wedi eu prydlesu neu eu llogi a chymhwysedd staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n gyrru'r cerbydau ar weithgareddau'n ymwneud â'r brifysgol.

Ceir rhagor o ganllawiau penodol yn Llawlyfr Bysiau Mini Prifysgol Bangor, sy'n cynnwys arfer da fel y disgrifir gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Rheolau'r Ffordd Fawr.

## 4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

At ddibenion y polisi hwn defnyddir y diffiniadau canlynol:

- Bws mini: Cerbydau modur sydd wedi eu hadeiladu neu eu haddasu i gludo dros wyth teithiwr ond ddim mwy nag 16 teithiwr yn ychwanegol at y gyrrwr.
- Trwydded Adran 19: Fel sefydliad addysgol gall y brifysgol ddefnyddio bysiau mini dan Drwydded Adran 19 sy'n eithrio gyrrwyr sy'n gyrru bysiau mini ar weithgareddau'n ymwneud â'r brifysgol o rai o ofynion y Ddeddf Trafndiaeth (ddiwygiedig).

- Uchafswm Màs Awdurdodedig (MAM): Dyma'r cerbyd mwyaf o ran pwysau y gall gyrrwr ei yrru, sy'n **cynnwys** pwysau'r cerbyd, y gyrrwr, yr holl deithwyr a'r llwyth.

## 5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:

- a. Sefydlu, trwy'r polisi hwn a'i ddogfennau atodol, system reoli sy'n ceisio cydymffurfio â deddfwriaeth a rheolaethau sy'n gysylltiedig â defnyddio bysiau mini ar waith y brifysgol yn y Deyrnas Unedig.
- b. Darparu adnoddau digonol i gefnogi gweithredu'r polisi hwn.
- c. Dirprwyo, yn unol â system reoli iechyd a diogelwch y brifysgol, y ddyletswydd i weithredu'r polisi hwn i ddeoniaid coleg a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol.

## 6. CYFRIFOLDEBAU'R COLEGAU A'R GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Rhaid i bob coleg/gwasanaeth weithredu fel y nodir isod os yw'n defnyddio bysiau mini ar waith y brifysgol yn y Deyrnas Unedig:

### i) Y CERBYD - BWS MINI:

- a. Dim ond llogi / prydlesu bysiau mini gan gyflenwr a gymeradwywyd gan y brifysgol a fydd yn cadarnhau bod y bws mini wedi ei drethu, bod MOT arno, a'i fod wedi ei gynnal a'i gadw etc. fel bo'r angen.
- b. Sicrhau mai dim ond gyrrwyr awdurdodedig sy'n gyrru bysiau mini (gweler Adran 6 ii).
- c. Rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion neu bryderon yn ymwneud â bysiau mini.

### ii) GYRWYR AWDURDODEDIG - yn cynnwys staff nad ydynt yn perthyn i'r brifysgol / myfyrwyr (gwirfoddolwyr):

Sicrhau'r canlynol yn achos pob gyrrwr:<sup>1</sup>

- a. **Eu bod yn 25 oed o leiaf.** Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi eu hawdurdodi i yrru bws mini ar weithgareddau'n ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr ond ni chânt yrru cerbyd ar weithgareddau'n ymwneud â choleg/gwasanaeth hyd nes eu bod yn 25 oed
- b. Eu bod â thrwydded yrru lawn (categori B) ers o leiaf ddwy flynedd.
- c. Eu bod wedi pasio prawf MIDAS (ar gael trwy Undeb y Myfyrwyr), neu brawf tebyg sydd wedi ei gymeradwyo, ac wedi cael hyfforddiant gloawi fel bo'r angen.
- d. Eu bod yn cael copi o'r Llawlyfr Bws Mini ac yn deall eu cyfrifoldebau penodol wrth yrru ar waith yn ymwneud â'r brifysgol.
- e. Eu bod wedi eu hawdurdodi'n ffurfiol i yrru trwy lenwi'r Ffurflen Awdurdodi Gyrrwr a yn darparu'r manylion i'r Swyddog Yswiriant (gweler Adran 6 iii) a bod gwiriadau trwydded yrru blynyddol yn cael eu gwneud wedi hynny.
- f. Eu bod yn rhoi eu gwasanaeth heb dâl na gwobr ac eithrio treuliau parod yn unol â gofynion Trwydded Adran 19 (gweler Adran 6 iv).

<sup>1</sup>Rhaid i Swyddog Yswiriant y brifysgol gymeradwyo unrhyw yrwyr sydd y tu allan i'r gofynion a nodir yn 6 ii (a - c) uchod.

- g. Dim ond gyrru bws mini gydag Uchafswm Màs Awdurdodedig a niferoedd seddi teithwyr fel y nodir gan y categorïau ar eu trwydded yrru:

	Categoriâu Trwydded Yrru			Hyfforddiant Penodol
	B	D1 <sup>2</sup>	D1E	
Cyfyngiadau Uchafswm Mas Awdurdodedig (MAM)	<b>IE</b> 3,500kg neu lai (neu 4,250kg os oes pecyn arbenigol ar gael i gynorthwyo teithwyr anabl)	<b>IE</b> Bws mini o unrhyw bwysau (ni ddylai'r cerbyd fod yn fwy na 8m o hyd)	<b>OES</b> Bws mini o unrhyw bwysau (ni ddylai'r cerbyd fod yn fwy na 8m o hyd)	
Bws mini: 8 - 16 o seddi teithwyr	<b>IE</b>	<b>IE</b>	<b>IE</b>	<b>IE</b> MIDAS (neu arall tebyg)
Trelar Tynnu	<b>NA</b>	<b>IE</b> ( <u>hyd at</u> 750kg)	<b>IE</b> ( <u>dros</u> 750kg)	<b>IE</b> Hyfforddiant penodol bws mini a threlar

iii) YSWIRIANT:

Hysbysu Swyddog Yswiriant y brifysgol am y canlynol:

- Bysiau mini sydd ar brydles neu wedi eu llogi gan goleg a gwasanaeth proffesiynol trwy lenwi'r 'Ffurflen Yswiriant Llogi Cerbydau' ar-lein.
- Gyrwyr Awdurdodedig Bysiau Mini, trwy'r Ffurflen Awdurdodi Gyrwyr.
- Newidiadau i drwyddedau gyrru gan gynnwys ardystiadau, pwyntiau cosb, cyfyngiadau meddygol.

iv) GWEITHREDU - TRWYDDEDAU ADRAN 19:

- Sicrhau y gweithredir pob bws mini dan Drwydded Adran 19.
- Prynu digon o Drwyddedau Adran 19 ar gyfer nifer y bysiau mini a ddefnyddir ar unrhyw adeg, gan geisio rhai newydd yn ôl yr angen.<sup>3</sup>

v) COFNODION

Cadw'r cofnodion canlynol:

- Manylion bysiau mini ar brydles (a dogfennau perthnasol a ddarperir gan y cyflenwr).
- Awdurdodiadau Gyrwyr Bws Mini ac ailgyflwyno blynyddol, sy'n cynnwys gwiriadau trwydded yrru (cedwir y data'n unol â pholisi'r brifysgol ar ddiogelu data).
- Manylion ar ddefnyddio Trwydded Adran 19.

<sup>2</sup>Fel rheol, bydd gan yrwyr sydd wedi pasio eu prawf cyn 1 Ionawr 1997 gategori D1 ar eu trwydded. Yn dechnegol, gallant yrru bysiau mini gyda hyd at 16 o seddi teithwyr a thynnu trelar hyd at 750kg. Rhaid i golegau / gwasanaethau sy'n cymeradwyo'r cyfryw yrwyr gadarnhau fod gan y gyrrwr y gallu a'r hyder i yrru cerbydau mwy a thynnu trelar, gyda hyfforddiant yn cael ei roi os gofynnir am hynny.

<sup>3</sup> Dylid prynu'r rhain Iechyd, Diogelwch a Lles, Gwasanaethau Campws.

## 7. CYFRIFOLDEBAU GYRWYR BWS MINI

Rhaid i bob aelod staff, myfyriwr neu wirfoddolwr sy'n gyrru bws mini ar waith y brifysgol gadw at y gofynion isod:

- Cydymffurfio â'r gofynion a nodir dan 'Gyrwyr' uchod (6 ii) .
- Cyflawni eu cyfrifoldebau yn ôl gofynion Rheolau'r Ffordd Fawr a'r Llawlyfr Bws Mini.
- Rhoi gwybod ar unwaith am bwyntiau cosb, ardystiadau, amodau neu gyfyngiadau meddygol i'w coleg/gwasanaeth ac i'r Swyddog Yswiriant.
- Arddangos y Drwydded Adran 19 yn y bws mini.
- Peidio byth ag ysmegu mewn bws mini na gyrru o dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu unrhyw feddygiaeth ar bresgripsiwn neu a brynir dros y cownter a allai effeithio ar eu gallu i yrru.
- Gofalu fod Ffurflen Cofrestru Taith yn cael ei llenwi ar gyfer pob taith a'i bod ar gael yn hwylus i'w defnyddio gan eraill mewn argyfwng.
- Sicrhau fod holl ddeunyddiau ac offer yn cael eu storio'n ddiogel.

## 8. CYFRIFOLDEBAU TEITHWYR

Rhaid i'r holl deithwyr mewn bws mini a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau'r brifysgol gadw at y gofynion isod:

- Peidio byth â thynnu sylw'r gyrrwr, a dilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser.
- Gwisgo gwregysau diogelwch (os ydynt ar gael) bob amser pan fo'r cerbyd yn symud.
- Ymddwyn mewn dull na fydd yn peryglu pobl eraill.
- Peidio byth ag ysmegu, yfed alcohol na chymryd cyffuriau yn y bws mini, ac eithrio rhai ar bresgripsiwn neu a brynir dros y cownter.

## 9. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech i gefnogi unigolion fel eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a chael eu trin yn gyfartal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol, y gwneir darpariaeth o ran anghenion hygyrchedd yr holl gyfranogwyr a allai fod yn teithio mewn bws mini ac/neu'n ei yrru.

## 10. CANLLAWIAU PELLACH

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y Llawlyfr Gwybodaeth Bws Mini ac ar y wefan Iechyd a Diogelwch.

## 11. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Gall Iechyd a Diogelwch a Gwasanaethau Campws gynnal archwiliadau neu adolygiadau achlysurol i asesu effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn.

Rhaid i'r colegau/gwasanaethau proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y polisi hwn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Bydd y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r amserlen adolygu y cytunwyd arni, a bydd Bwrdd Gweithredol y brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

**Diwedd.**